Papur Bro Abertawe

# WILIA

RHIFYN 460 RHAGFYR 2023 | AM DDIM

## PERFFORMIAD BYRLYMUS

-HENI GRUFFUDD

Dathlodd Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe ei phen blwydd yn ugain gyda pherfformiad byrlymus o 'High School Musical' yn Gymraeg.

Cymerwyd rhan gan ryw gant o ddisgyblion, ac afiaith amlwg a heintus yn eu hactio, dawnsio a chanu.

Perfformiwyd y sioe i gynulleidfa lawn am dair noson gyda pherfformiad ychwanegol i ysgolion cynradd.

Bu'r disgyblion yn ymarfer am ddeufis ac mae'n amlwg iddyn nhw gael hwyl, a phrofiadau arbennig. Roedd y canu unigol o safon a'r dawnsio a'r canu gan lwyfan llawn yn fwynhad pur.



## DATHLU'R NADOLIG

-HEINI GRUFFUDD

Mwynhaodd aelodau Côr Tŷ Tawe eu cinio Nadolig ym mwyty'r Belle Vue yn Abertawe. Ar ôl y wledd cafwyd awr o ganu braf, yn unawdau a chydganu.





## CINIO'R CLWB DARLLEN

-HEINI GRUFFUDD

Cafodd clwb darllen Tŷ Tawe wledd Nadoligaidd ym mwyty'r Belle vue. Enillwyd y cwis llenyddol gan Elin, a Mark yn ail, yn bennaf am eu bod wedi dyfalu bod 5 o nofelau diweddar wedi cael eu disgrifio'n 'chwip o nofel'

Bydd y clwb yn cyfarfod eto nos Lun , Ionawr y 15fed yn Nhŷ Tawe. Nofel Alun Davies, Pwy yw Moses John fydd y maes trafod. Croeso i bawb.



## Y FARI LWYD YN BLACKPILL

-JACI GRUFFUDD

Pe bai chi wedi galw mewn i dafarn Y Woodman yn Blackpill yr wythnos ddiwethaf byddech chi wedi synnu gweld ceffyl a grwp o fenywod yn canu!!

Mae Merched Y Wawr yn trefnuffilm o'r enw Cracyr Nadolig i ddathlu'r Wyl. Mae pob rhan o Gymru yn cyfrannu eitem ac roedd Gorllewin Morgannwg wedi dewis gwneud y Fari Lwyd.

Roedden ni'n lwcus i ffeindio tafarn gyda thân braf a rheolwraig, Emma, sy'n dysgu Cymraeg. Roedd hi'n braf gweld arwyddion dwyieithog yn y dafarn.

Roedd ein Swyddog Datblygu, Jen Dafis, wedi dod â Mari Lwyd i ni a roedd e yng ngofal cadarn Catrin Stevens.

Aeth un grwp tu fas a chanu i ddod mewn ac roedd grwp arall tu fewn yn eu croesawu nhw.

Prynhawn hyfryd a braf o ganu a siarad Cymraeg. Bydd y ffilm Cracyr Nadolig yn cael ei dangos i aelodau Merched y Wawr dros Zoom.



## ALUN GIBBARD YN Y CLWB CINIO

-HEINI GRUFFUDD

Yr awdur Alun Gibbard oedd y siaradwr gwadd yng nghyfarfod Mis Hydref Clwb Cinio Cymraeg Abertawe yn Nhŷ Norton, Y Mwmbwls.

Siaradodd Alun am stori ryfeddol Carwyn James sy'n destun ei gofiant diweddar, Yn Erbyn y Gwynt. Eglurodd fod Carwyn yn berson llawer mwy na hyfforddwr rygbi, a bod cariad at lenyddiaeth Gymraeg yn ganolog i'w gymeriad.

O dre Llanelli'n wreiddiol, mae Alun Gibbard wedi ysgrifennu 39 o lyfrau yn ystod y pymtheng mlynedd oddi ar iddo ymddeol o'r byd darlledu. Mae'n gweithio'n gyson ym man geni Dylan Thomas yn Cwmdonkin Drive yn Yr Uplands

Noson hyfryd gydag araith i'w chofio.



## AWYDDUS I WIRFODDOLI? MAE GWEFAN I'CH HELPU!

-CASIA WILLIAM

Ydych chi'n meddwl o dro i dro y byddai'n eithaf braf mynd i wirfoddoli yn eich ardal leol? Efallai helpu mewn siop elusen, mewn clwb brecwast cymunedol neu mewn banc bwyd efallai?

Wrth wirfoddoli mi fyddwch yn rhoi rhywbeth yn ôl i'ch bro, ac mae manteision mawr i unigolion sy'n gwirfoddoli hefyd. Yn ôl adroddiad diweddar gan Sefydliad Prydeinig y Galon, roedd 92% o bobl sy'n gwirfoddoli yn dweud ei fod yn llesol i'w iechyd meddwl nhw, a 94% yn dweud bod gwirfoddoli yn golygu eu bod yn teimlo'n llai unig.

Gall fod yn anodd gwybod lle i ddechrau cofiwch, yn enwedig os ydych chi erioed wedi gwirfoddoli o'r blaen. Diolch felly am wefan Gwirfoddoli Cymru! Mae'r wefan hon yn caniatáu i chi gofrestru eich diddordeb mewn gwirfoddoli fel unigolyn.

Gallwch rannu manylion am eich lleoliad yn fras, a tua faint o oriau'r wythnos yr hoffech wirfoddoli. Yna, os bydd elusen yn chwilio am rywun, gallant gysylltu gyda chi!

Gall sefydliadau gofrestru hefyd gan nodi eu hanghenion, felly gallwch gael golwg i weld os oes elusen leol i chi yn chwilio am help llaw. Ewch draw heddiw i gael golwg ar y wefan https://volunteering-wales.net/cy i weld os oes unrhyw gyfleoedd sy'n apelio. Gallwch chwilio yn benodol am gyfleoedd gwirfoddoli yn y Gymraeg hefyd. Mae prinder gwirfoddolwyr ledled Cymru ar hyn o bryd felly byddwch yn siŵr o gael croeso cynnes

## NEWYDDION DIWEDDARAF ADRAN Y GYMRAEG BRYN TAWE

-MEINIR JONES

Yn dilyn llefaru'r gerdd '11.12.82' gan Iwan Llwyd yn Eisteddfod yr Urdd y llynedd a'i pherfformio droeon ers hynny, penderfynwyd trefnu taith i Gilmeri ar yr 11eg o Ragfyr eleni! Aethpwyd â llond bws o ddisgyblion o fl.7 i 13. Cawsom gyfle i ddysgu mwy am Llywelyn ein Llyw Olaf ger y garreg goffa a darllen rhai cerddi enwog (a pherfformio '11.12.82' wrth gwrs!). Cafodd y disgyblion gyfle hefyd i weld y ffynnon gerllaw (a bu bron i un disgybl golli ffôn yn nŵr y ffynnon!). Yna, wedi gwledda yn 'Burger King', treuliwyd y prynhawn yn Neuadd Llanwrtyd mewn gweithdy barddoniaeth, a hwnnw dan ofal Aneirin Karadog a ddaeth gyda ni am y diwrnod. Erbyn diwedd y dydd, roedd sawl disgybl wedi ysgrifennu cerdd, ac yn nwylo medrus Aneirin, fe lwyddwyd i greu un gerdd fel grŵp cyfan. Cafodd y disgyblion gyfle hefyd yn y prynhawn i ymweld â'r Ganolfan Dreftadaeth yn Llanwrtyd. Diolch yn fawr i Mrs Susan Price am gynorthwyo gyda threfniadau'r diwrnod a diolch hefyd i Llenyddiaeth Cymru am grant tuag at gostau'r diwrnod. Yn sicr, roedd 11.12.23 yn ddyddiad i'w gofio i griw o ddisgyblion Bryn Tawe!





## CALENDR ADFENT BANCBWYD CHWECHED BRYN TAWE
-CATRIN LYALL

Mae Chweched Bryn Tawe wedi bod yn arwain ymgyrch i gefnogi banciau bwyd lleol drwy fis Rhagfyr. Mae disgyblion wedi bod yn dod â nwyddau amrywiol i'r ysgol bob diwrnod yn ystod y mis gan gynnwys fel tâl ar ddiwrnod siwmperi Nadolig ar Ragfyr yr 8fed. Ar y diwrnod hwnnw cyfrannodd rhai disgyblion arian ac felly bu criw ohonom yn siopa er mwyn prynu mwy o nwyddau hefyd! Eisoes mae llond stafell o nwyddau wedi eu casglu a byddwn yn casglu hyd at yr 20fed pan fyddwn yn dosbarthu'r nwyddau i Fanc Bwyd Penlan a Banc Bwyd Gellifedw.

Diolch i bawb sydd wedi ein cefnogi.





Barn...

## DYSGWYR AR BENRHYN GWYR
-ROB EVANS

Mae mis Rhagfyr wedi cyrraedd ac yn amser i edrych yn ôl ar beth sydd wedi digwydd ers dechrau'r flwyddyn. Mae hanner o fy myd i yn troi o gwmpas dysgwyr, rhai blynyddoedd yn ôl roeddwn i'n diwtor ac yn mwynhau codi diddordeb oedolion yn ein hiaith hyfryd. Ond roeddwn i'n gwneud hynny yng nghyfforddusrwydd tafodiaith y Gogledd. Wrth ymddeol a symud i lawr i Abertawe doeddwn i ddim yn teimlo y byddaf yn gallu cael yr hwyl roeddwn i'n arfer cael.

Felly, dros y tair blynedd diwethaf dw i wedi bod yn mynychu grwpiau o ddysgwyr a helpu nhw i sgwrsio. Roedd y grŵp cyntaf, Southgate, wedi bod mewn bodolaeth am lawer o flynyddoedd pan nes i ddechrau ac roeddwn yn synnu at y ffordd roedden nhw wedi datblygu. Roedden nhw'n cyfarfod mewn caffi lleol a hynny'n golygu bod y Gymraeg yn cael ei glywed bob wythnos, a hynny mewn pentref hollol Saesneg. Mae'n beth da i'r iaith gael ei chlywed. Mae'r grŵp yma'n bwydo Cymdeithas Cymraeg Llandeilo Ferwallt ac, wrth wneud, yn sicrhau ei fodolaeth.

Llynedd dechreuodd grŵp yn Llanmadoc, mewn lleoliad hyfryd yn edrych i lawr ar foryd yr afon Llwchwr ac yn fuan wnaeth y grŵp dyfu. Mae cydbwysedd o Gymry Cymraeg, dysgwyr wedi cyrraedd rhuglder a'r rhai sydd ar ddechrau'r daith. Mae rhaid meithrin y dechreuwyr tra ar yr un pryd cadw'r sgyrsiau i fynd ond wrth wrando maen nhw'n clywed geiriau a phatrymau sydd yn gyfarwydd iddyn nhw. Mae'r hyder yn codi ac yn sydyn, fel cyw yn torri trwy'r plisgyn, maen nhw'n siarad. Maen nhw ar y ffordd.

Llynedd hefyd dechreuodd y drydydd grŵp yn neuadd eglwys San Pedr yn Newton a wnaeth y grŵp yma dyfu'n gyflym iawn. Ond dydy Newton ddim allan yn y wlad fel y ddau arall ond ar gyrion ddinas Abertawe felly mae mwy o bobl o gwmpas. Y peth sydd yn wahanol am Newton yw bod canran well o siaradwyr Cymraeg yna a dydyn nhw ddim yn swatio mewn cornel efo'i gilydd chwaith, maen nhw yna yn siarad efo'r dysgwyr. Pob hyn a hyn dw i'n stopio a gwrando ar gymaint o wahanol sgyrsiau sydd yn mynd ymlaen, a'r dysgwyr yn siarad yn rhydd ac yn hyderus. Mae'r iaith ar waith!

Beth dw i wedi dysgu yw nad yw hi'n ddigon i fynd i'r dosbarth nos yn ffyddlon. Dyna yw'r lle i ddysgu geiriau a rheolau ond os nad ydyn nhw'n cael y cyfle i siarad mae dysgwyr yn cael eu boddi dan y rheolau. Mae'n rhaid iddyn nhw ddefnyddio'r iaith a hynny mewn ffordd naturiol - cyfathrebu go iawn!

Dw i'n falch o ddysgu bod mwy o grwpiau yn tyfu yn Abertawe a hynny'n golygu bod mwy o ddysgwyr yn croesi'r bont i'r gymuned.

Ond, i fynd yn ôl at grŵp Newton, beth sydd yn arwyddocaol yw bod y grŵp yna wedi denu Cymry a oedd wedi colli cysylltiad â'r iaith ac, wrth i hynny ddigwydd, mae'r iaith yn cael adfywiad. Pwy ag ŵyr pa mor bell mae hyn yn gallu mynd? Gyda Chymry Cymraeg yn cael y cyfle i adennill yr iaith a dysgwyr yn cael 'fast track' i rugled mae'n bosib i'r iaith gael hwb enfawr. A hynny heb gostio ceiniog i'r llywodraeth.

Beth amdani? Beth am eich ardal chi?

## CYRSIAU NEWYDD

Byddwn yn croesawu Addysg Oedolion Cymru / Adult Learning Wales i Dŷ Tawe ar gyfer 3 cwrs 10 wythnos newydd yn y flwyddyn newydd!

Dyma'r cyrsiau sydd ar gael:

Hanes Protest yng Nghymru | A History of Protest in Wales
Nofelwyr Benywaidd y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg | Nineteenth Century Women Novelists
Y Nofel Gymraeg Gyfoes | The Contemporary Welsh Novel

Ewch i adultlearning.wales i gofrestru.







## SIOE NEWYDD

Falch iawn i gyhoeddi y bydd Meinir Gwilym yn ymuno gyda ni yn Nhŷ Tawe ar gyfer Independent Venue Week!

Nos Wener | Friday, 2.2
+ cefnogaeth gan / support from Lo-fi Jones

Tocynnau ar gael trwy www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe




## CAFFI CYMRAEG LLYS NINI

Bydd sesiwn nesaf Caffi Cymraeg Llys Nini yn digwydd ar ddydd Mercher, Ionawr 10fed, 11yb - 12yp. Ymunwch â ni yng Nghaffi Nini am gyfle i sgwrsio ac ymarfer eich Cymraeg.

Croeso cynnes i siaradwyr o bob lefel!




## CAFFI CYMRAEG
## Y GANOLFAN AMGYLCHEDDOL

Ymunwch â ni ar Ionawr 16eg ar gyfer y Caffi Cymraeg nesaf. Cyfle i ymarfer eich Cymraeg mewn awyrgylch anffurfiol. Mae'r caffi yn rhedeg pob trydydd dydd Mawrth y mis, 10.30yb - 11.30yb.

Croeso cynnes i siaradwyr o bob lefel.




## DYDDIADAU I'R DYDDIADUR!

25.01 - Ritual Cloak + Siula (Mission Gallery)
02.02 - IVW24: Meinir Gwilym + Lo-Fi Jones (Tŷ Tawe)
22.02 - Lleuwen: Emynau Coll y Werin (Mission Gallery)










Tocynnau:www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe

Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Rhagfyr.

Menter Iaith Abertawe sydd nawr yn coladu straeon Wilia. Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Ionawr erbyn Ionawr 8fed trwy ebostio Anys at:

datblygu@menterabertawe.org

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

CYMRAEG
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

MENTER IAITH ABERTAWE x BUBBLEWRAP COLLECTIVE YN CYFLWYNO

# RITUAL CLOAK



## + SIULA

## 25.01.24 MISSION GALLERY, ABERTAWE

19:00 / £5
MENTERABERTAWE.ORG

bubblewrap collective

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

menter iaith abertawe




MENTER IAITH ABERTAWE YN CYFLWYNO

# MEINIR GWILYM

## + LO-FI JONES

## 02.02.24 TŶ TAWE, ABERTAWE

19:00 / £8
MENTERABERTAWE.ORG

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ardal Bae Abertawe
Swansea Bay Region

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

menter iaith abertawe